WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Busnes i Helpu Pobl Ifanc i Gael Gwaith - **Crynodeb o dystiolaeth o Adolygiadau'r Archwilydd Cyffredinol ar Bobl Ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant**

Er mwyn helpu'r Pwyllgor Menter a Busnes gyda'i ymchwiliad i 'Helpu pobl ifanc i gael gwaith', rydym wedi crynhoi'r canfyddiadau o adolygiad gwerth am arian yr Archwilydd Cyffredinol o *Bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant* a'r astudiaeth wella o waith cysylltiedig mewn cynghorau a gyhoeddwyd ar yr un pryd (Gorffennaf 2014)

Mae'r canfyddiadau wedi'u crynhoi yn unol â chylch gorchwyl a phrif faterion yr ymchwiliad.

## Prif gasgliadau gwaith yr Archwilydd Cyffredinol

Ym mis Gorffennaf 2014, cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru adroddiad yr astudiaeth gwerth am arian ar Leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ac Adolygiad o waith cysylltiedig mewn cynghorau lleol.

Daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad fod Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa dda i helpu i leihau nifer y bobl ifanc rhwng 16-18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) ond nad yw mewn sefyllfa gystal i leihau nifer y bobl ifanc 19-24 oed sy'n NEET a phennu a yw'n cyflawni gwerth am arian yn y maes hwn. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- Mae camau Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a gwaith ymgysylltu â chynghorau a rhai partneriaid pwysig eraill ond nid oes asesiad trylwyr o'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni ei hamcanion.

- Os cânt eu gweithredu'n llwyddiannus, mae Fframwaith a Chynllun Gweithredu Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid Llywodraeth Cymru (y Fframwaith) yn debygol o wella'r broses o gynllunio a chydgysylltu gwasanaethau a'r ddarpariaeth ohonynt er mwyn lleihau nifer y bobl ifanc 16-18 oed sy'n NEET, ond erys risgiau sylweddol yn enwedig mewn perthynas â phobl ifanc 19-24 oed.

- Mae gan Lywodraeth Cymru weithdrefnau clir ar waith i fonitro cynnydd a dwyn cynghorau a'r rhan fwyaf o randdeiliaid cenedlaethol i gyfrif ond nid yw cynghorau a phartneriaid eraill wedi mabwysiadu ei thargedau er eu bod yn ymrwymedig i leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET.

Yn sgil y gwaith mewn awdurdodau lleol, daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad fod cynghorau wedi ymrwymo'n glir i leihau ymhellach nifer y bobl ifanc sy'n NEET, yn enwedig y rhai sy'n 16-18 oed, ond bod gwaith cynllunio yn amrywio ac mae cynghorau wedi gwneud llai o gynnydd o ran deall costau neu o ran gwerthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth sy'n angenrheidiol ar gyfer cyrraedd eu nodau.

## Crynodeb o ganfyddiadau'n ymwneud â chylch gorchwyl y Pwyllgor

*i. Pa gymorth sydd fwyaf effeithiol a beth yw'r prif rwystrau a wynebir gan bobl ifanc wrth iddynt geisio ymuno â'r farchnad lafur?*

Daeth yr astudiaeth i'r casgliad fod chwe elfen allweddol y Fframwaith yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn ac os cânt eu gweithredu'n llwyddiannus dylent fod yn effeithiol a helpu i leihau nifer y bobl ifanc 16-18 oed sy'n NEET. *(Paragraffau 1.9-1.12 y prif adroddiad a Rhan 2)*. Dyma'r elfennau:

- Nodi pobl ifanc sydd fwyaf tebygol o ymddieithrio.
- Gwell broceriaeth a chydgysylltu o ran cymorth.
- Prosesau tracio a phontio cryfach drwy'r system i bobl ifanc.
- Sicrhau bod y ddarpariaeth yn diwallu anghenion pobl ifanc.
- Atgyfnerthu sgiliau cyflogadwyedd a chyfleoedd i gael cyflogaeth.

• Gwell atebolrwydd i sicrhau gwell deilliannau i bobl ifanc.

Mae rhywfaint o dystiolaeth bod proses effeithiol o olrhain pobl ifanc sydd mewn perygl o ddod yn NEET (e.e. yn Wrecsam) a gwell systemau ar gyfer cydgysylltu cymorth (e.e. yn Abertawe) wedi cyfrannu at leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET. Fodd bynnag, roedd llai o dystiolaeth o effeithiolrwydd cymharol gwahanol wasanaethau ac ymyriadau. (Para 1.12).

Nid oedd yr astudiaeth yn nodi'r prif rwystrau i gyflogaeth ond nodwyd amrywiaeth yr ysgogwyr a oedd yn gysylltiedig â phobl ifanc sy'n NEET (Blwch 2, tudalen 20). Roedd y rhain wedi'u cynnwys yn y dogfennau Adolygiad a Chynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc a gyhoeddodd Llywodraeth Cymru yn 2010 ac sy'n cynnwys:

- Ffactorau addysgol sy'n cynnwys presenoldeb a chyrhaeddiad isel;
- Ffactorau economaidd-gymdeithasol, gan gynnwys y rhai o deuluoedd incwm isel;
- Ymddygiad rhieni gan gynnwys diffyg ymwneud yn addysg y plentyn;
- Ymddygiad ac agweddau pobl ifanc; ac
- Amgylchiadau teuluol a phersonol gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal, merched beichiog yn eu harddegau, troseddwyr ifanc a digartrefedd.

*ii. I ba raddau y mae strategaeth Llywodraeth Cymru i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn effeithiol ac yn cynnig gwerth am arian?*

Mae'r adroddiad yn nodi bod rhai prosiectau yn amodol ar werthusiad ond nid oedd yr astudiaeth yn gallu asesu gwerth am arian y strategaeth oherwydd nad oedd dealltwriaeth Llywodraeth Cymru a phartneriaid o'r gwariant ar gyfer cefnogi'r strategaeth yn ddigon clir ac nid oedd ymyriadau a gwasanaethau wedi'u gwerthuso'n ddigonol er mwyn asesu eu heffeithiolrwydd. *(Para 1.17)*.

*iii. Pa gynnydd a wnaed hyd yma o ran Cynllun Gweithredu'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid?*

Cynhaliwyd yr astudiaeth yn ystod y gwaith o ddatblygu a chyhoeddi'r Fframwaith. Nid yw'n cynnwys y cynnydd ers hynny.

*iv. Pa mor effeithiol yw rôl strategol awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill, gan gynnwys y Gwasanaeth Gyrfaoedd, y Gwasanaeth Ieuenctid a'r consortia addysg rhanbarthol?*

Daeth yr astudiaeth i'r casgliad fod ansawdd cynllunio strategol gan awdurdodau lleol yn amrywio a bod y gwaith o ymgysylltu'n lleol â phartneriaid yn amrywio hefyd. *(Cynghorau: Rhan 2)*. Mewn rhai meysydd, mae'r Gwasanaeth Gyrfaoedd yn rhan ganolog o fentrau ac yn ymgysylltu'n effeithiol â phartneriaid. Mae gan y Gwasanaeth Gyrfaoedd rôl bwysig o ran rhoi systemau data ac olrhain ar waith.

Mae'r Fframwaith yn nodi rôl bwysig ar gyfer gwasanaethau ieuenctid fel darparwyr gweithwyr arweiniol ar gyfer pobl ifanc sydd â'r angen mwyaf. Roedd yr adolygiad o'r

cynghorau yn dangos bod y ddealltwriaeth am gyfrifoldeb cynghorau yn anghyson, fel y nodir yn y ddogfen Ymestyn Hawliau*: Cynorthwyo Pobl Ifanc yng Nghymru (2000),* ar gyfer arwain a chydgysylltu gwasanaethau ieuenctid ar gyfer pobl ifanc 16 -24 oed a fydd yn annog pobl ifanc (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) i gyfranogi'n effeithiol ym maes addysg a hyfforddiant, manteisio ar gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth; a chyfranogi'n effeithiol a chyfrifol ym mywyd eu cymunedau, a bydd yn eu galluogi a'u cynorthwyo i wneud hynny *(Cynghorau: para 2.16)*.

Daeth yr adolygiad o'r cynghorau i'r casgliad fod Cynghorau wedi gweithio gydag ysgolion, colegau addysg bellach, darparwyr dysgu seiliedig ar waith a phartneriaid eraill i nodi a chynorthwyo pobl ifanc sy'n wynebu risg o ddod yn NEET. Fodd bynnag, nodwyd bod y tyndra rhwng partneriaid sydd mewn cystadleuaeth am ddysgwyr weithiau yn eu rhwystro rhag cydweithio'n effeithiol. *(Cynghorau: paragraffau 3.3-3.9)*.

Yn gyffredinol, dywedodd y cynghorau ei bod yn anodd ymgysylltu â chyflogwyr i ddatblygu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant, gan gynnwys prentisiaethau a phrofiad gwaith. Fodd bynnag, roedd rhai enghreifftiau o waith cadarnhaol gyda busnesau lleol lle'r oedd cynghorau wedi datblygu eu rhaglenni prentisiaeth eu hunain a oedd yn targedu pobl ifanc. *(Cynghorau: paragraffau 3.11-3.12)*.

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn bartner pwysig yn enwedig mewn polisïau ar gyfer pobl ifanc 19-24 oed. Gwelsom enghreifftiau o waith da a gwelsom fod prosesau cydweithio rhwng awdurdodau lleol a'r Adran Gwaith a Phensiynau yn gwella. Daethom i'r casgliad fod y gorgyffwrdd o ran cyfrifoldebau amrywiol rhwng adrannau Llywodraeth Cymru ac Adran Gwaith a Phensiynau Llywodraeth y DU yn gyfyngiad pwysig ar waith gyda phobl ifanc 19-24 oed a'r nifer gymharol fach o bobl ifanc 16-18 oed sy'n derbyn budd-daliadau. Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i wella'r broses gyfathrebu â Llywodraeth y DU drwy weithgorau swyddogol. *(Paragraffau 2.22-2.24)*.

*v. Graddfa gwahaniaethu a'i effaith ar recriwtio pobl ifanc;*

Ni chafodd ei gynnwys yn yr astudiaeth.

*vi. Pa mor effeithiol yw'r amrywiaeth o gynlluniau, mentrau a phrosiectau sy'n anelu at gefnogi pobl ifanc i gael gwaith, er enghraifft Twf Swyddi Cymru, prentisiaethau, hyfforddeiaethau, prosiectau eraill a gefnogir gan gyllid Ewropeaidd a phrosiectau a reolir gan y trydydd sector? A ydynt yn sicrhau gwerth am arian?*

Daeth yr astudiaeth i'r casgliad nad oedd dull cyffredin o werthuso prosiectau a chynlluniau unigol. Nid oedd gwaith gwerthuso yn digwydd fel mater o drefn ac felly roedd yn anodd asesu'r gwerth am arian. (*Para 4.4*).

Derbyniwyd yn gyffredinol nad oedd y trefniadau ar gyfer cyllid Ewropeaidd yn ystod 2006-13 wedi'u cydgysylltu cystal ag y gallent fod ac roedd hyn wedi cyfrannu at rywfaint o ddyblygu ac anghysondeb. Nododd yr astudiaeth fod trefniadau'n cael eu rhoi ar waith ar gyfer cyllid Ewropeaidd o 2014 a fyddai'n sicrhau bod prosiectau'n cau'r bylchau yn y darpariaethau lleol hynny a nodwyd drwy fapio gwasanaethau'n

lleol a bod tendrwyr wedi ymwneud â rhwydweithiau lleol ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed. *(Paragraffau 1.26-1.27)*.

## Materion y mae'r Pwyllgor yn eu hystyried

a. *Effaith penderfyniad Llywodraeth Cymru i flaenoriaethu cymorth i bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed; ac effaith y penderfyniad hwnnw ar bobl ifanc rhwng 19 a 24;*

Daeth yr astudiaeth i'r casgliad nad yw'r broses o weithredu'r Fframwaith, gyda'i bwyslais ar bobl ifanc 16-18 oed, o bosibl yn ddigonol er mwyn i Lywodraeth Cymru allu cyflawni ei hamcanion ar gyfer pobl ifanc 19-24 oed. Mae'n nodi bod gwaith ymchwil ac arolygu wedi dod i'r casgliad nad yw gwell canlyniadau yn 16-18 oed bob amser yn arwain at well canlyniadau yn 19-24 oed (e.e. *Against the Odds - Re-engaging young people in employment or training,* y Comisiwn Archwilio, Gorffennaf 2010). Mae ffigurau ar gyfer awdurdodau lleol Cymru yn dangos nad oedd y rhai â'r gostyngiadau mwyaf mewn niferoedd NEET sy'n gadael addysg yn 16 wedi gweld yr un gwelliannau, o reidrwydd, ar gyfer y grŵp hŷn (e.e. Torfaen) *(Para 2.20)*.

b. *Trafnidiaeth (yn enwedig mewn ardaloedd gwledig): beth yw'r problemau a pha gymorth y gellir ei ddarparu?*

Ni chafodd ei ystyried fel rhan o'r astudiaeth.

c. *Yr angen am 'sgiliau meddal': e.e. sgiliau ar gyfer cyfweliad a cheisio am swydd; sgiliau i baratoi'r unigolyn at fyd gwaith;*

Ni chafodd ei ystyried fel rhan o'r astudiaeth.

ch. *Beth y gellir ei wneud i helpu grwpiau o bobl ifanc sy'n cael eu heffeithio yn fwy gan rwystrau i ailymuno â'r farchnad lafur, er enghraifft pobl ag anableddau?*

Nododd yr astudiaeth fod pobl ifanc ag anableddau neu sy'n ddifrifol wael, sydd ag anghenion addysgol arbennig, rhieni sydd yn eu harddegau a rhai grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o ddod yn NEET. Gwelsom nad yw'r Fframwaith yn gwahaniaethu'n ddigonol rhwng y gwahanol grwpiau o bobl ifanc sy'n NEET neu sydd mewn perygl o ddod yn NEET. Bwriad Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod unrhyw waith dadansoddi a blaenoriaethu o'r fath yn cael ei bennu'n lleol ond daeth yr astudiaeth i'r casgliad nad oedd yn glir a fyddai'r Llywodraeth yn monitro a oedd hyn yn digwydd ai peidio *(Paragraffau 2.12-2.15)*.

Argymhellodd yr astudiaeth fod Llywodraeth Cymru yn dadansoddi data a chynlluniau gweithredu lleol gan gyfeirio at anghenion grwpiau risg uchel a'i bod yn trafod hyn gyda chynghorau.

d. *Effaith a gwerth am arian cronfeydd Ewropeaidd;*

*Daeth yr astudiaeth i'r casgliad fod cyllid Ewropeaidd gwerth £40 miliwn y flwyddyn o leiaf* wedi cefnogi prosiectau sy'n gysylltiedig â NEET. Dyma oedd y brif ffynhonnell cyllid ar gyfer llawer o brosiectau lleol fel y prosiect 'Engage' gwerth £21 miliwn yn y De-orllewin yn ogystal â darparu cyllid sylweddol ar gyfer Rhaglenni Hyfforddi o'r Radd Flaenaf a rhaglenni eraill a arweinir yn ganolog. Roedd pob un o'r prosiectau hyn yn amodol ar fonitro perfformiad a oedd yn dangos eu bod wedi cyflawni eu

targedau. Fodd bynnag, fel y nodir uchod, daeth yr astudiaeth i'r casgliad nad oedd y gwerthusiadau cymharol yn ddigonol i allu barnu gwerth am arian cymharol *(Paragraffau 1.20 a 4.5)*.

dd. *I ba raddau mae cyflogwyr yn gofyn am sgiliau Cymraeg, ac a yw pobl ifanc yn gweld hyn yn rhwystr;*

Ni chafodd ei ystyried fel rhan o'r astudiaeth.

e. *Amrywiaeth ranbarthol a heriau lleol;*

Yn unol â'r disgwyl, yn sgil yr adolygiad o'r cynghorau gwelwyd bod gwaith cynllunio strategol, ymgysylltu a pherfformiad yn amrywio'n sylweddol yn lleol, ac yn wir, un o fwriadau'r Fframwaith yw cyflwyno dull mwy cyson sy'n seiliedig ar dystiolaeth ledled Cymru. Cafodd y gofyniad ar awdurdodau lleol a'u partneriaid i fapio gwasanaethau, penodi 'cydgysylltydd NEET', cyflwyno cynlluniau a'u trafod ddwywaith y flwyddyn â Llywodraeth Cymru ei groesawu gan awdurdodau lleol a daeth yr astudiaeth i'r casgliad y bydd y camau hyn yn cyfrannu at y tebygolrwydd y bydd y Fframwaith yn gwella gwaith cynllunio, gwaith cydgysylltu a'r gwaith o ddarparu gwasanaethau. *(Paragraffau 2.1-2.5)*.

f. *Y problemau cymdeithasol sy'n atal pobl ifanc rhag dod o hyd i waith, a sut i newid y diwylliant a'r agwedd sy'n cadarnhau diweithdra i lawer.*

Ni chafodd ei ystyried fel rhan o'r astudiaeth.